Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CE

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Carwyn

Yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 28 Tachwedd 2018 trafodwyd rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit. Mynegodd y Cadeiryddion bryder sydd ganddynt ynghylch rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Dywedodd y Cadeiryddion fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn nifer o Filiau'r DU sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach na chyflwyno ei Biliau ei hun i'r Cynulliad graffu arnynt. O ran yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gywiro'r llyfr statud cyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, deallaf eich bod wedi cytuno i gyfran sylweddol o'r ddeddfwriaeth hon gael ei gwneud gan Weinidogion y DU, gan ddefnyddio pwerau cydredol ar ran Gweinidogion Cymru.

Er fy mod i, a Fforwm y Cadeiryddion, yn deall eich bod wedi gwneud y penderfyniadau hyn ar sail effeithlonrwydd i'r llywodraethau sy'n rhan o'r broses, y pryder a fynegwyd gan y Cadeiryddion yw bod hyn yn dod ar draul rôl y Cynulliad ac felly gallu'r Aelodau i gynrychioli buddiannau pobl Cymru yn effeithiol yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Wrth gynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd imi gan y Cadeiryddion, a chan weithredu er budd sefyllfa'r Cynulliad ym mhroses Brexit, rwy'n pryderu mai effaith gronnol y penderfyniadau hyn gan Lywodraeth Cymru yw anwybyddu rôl y Cynulliad yn anfwriadol.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod craffu ar ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, yn enwedig mewn perthynas â meysydd polisi pwysig sy'n effeithio ar ddinasyddion, yn elwa o waith craffu llawer mwy penodol i Gymru pan gaiff ei hystyried gan y Cynulliad.

Nid yw'r cyfle cyfyngedig ar gyfer gwaith craffu a gynigir gan gonfensiynau cydsyniad deddfwriaethol a gweithdrefnau cysylltiedig yn cyd-fynd â phrosesau craffu deddfwriaethol llawn y Cynulliad.

At hynny, mae gwaith craffu deddfwriaethol gan y Cynulliad yn cynnig proses fwy hygyrch a thryloyw i randdeiliaid Cymru a'r cyhoedd, yn ogystal â sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gwneud yn ein dwy iaith swyddogol.

Yn union fel yr ydych wedi ymdrechu i sicrhau rôl i Lywodraeth Cymru ym mhroses Brexit, rhaid imi sicrhau bod y Cynulliad, a'i Aelodau, yn gallu chwarae'r rôl lawn y cawsant eu hethol i'w chyflawni.

Rwy'n deall bod pwyllgorau'r Cynulliad yn bwriadu ymgymryd â gwaith pellach yn y maes hwn ac rwy'n siŵr y byddant yn parhau i godi materion gyda chi a Gweinidogion Cymru.

Yn y cyfamser, gofynnaf ichi ystyried y pryderon a fynegwyd a byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar sut y gallech sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i alluogi'r Cynulliad i chwarae ei ran lawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad, Arweinydd y Tŷ, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (yn sgil ei rôl ym mhroses Brexit).

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd